# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Hydref 2019

Amser: 08.30 - 08.46

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Reg Kilpatrick, Llywodraeth Cymru<br>Lowri Hughes, Ysgrifenyddiaeth y Siambr |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.10 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes am fwriad y llywodraeth i gyflwyno cynnig i atal Rheolau Sefydlog er mwyn caniatáu i ddadl ar Brexit gael ei chynnal fel yr eitem olaf o fusnes cyn y Cyfnod Pleidleisio heddiw. Bydd hyn yn disodli'r 'Datganiad gan y Prif Weinidog: Diweddariad ar Brexit (45 munud)' sydd wedi'i dynnu'n ôl yn amodol ar dderbyn y cynnig i atal Rheolau Sefydlog.

Datganodd y Trefnydd ei bwriad i gyflwyno'r cynnig i atal Rheolau Sefydlog a'r cynnig am ddadl cyn gynted â phosibl y bore yma. Yn dilyn hynny, bydd y Llywydd yn cyfleu'r dyddiad cau ar gyfer gwelliannau i Reolwyr Busnes.

Soniodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes, hefyd, am y newidiadau canlynol i fusnes yr wythnos hon:

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025 (45 Munud)
- ~~Dadl o dan Reol Sefydlog 25.15 ar Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019~~ (0 munud) – *gohiriwyd tan 6 Tachwedd*

**Dydd Mercher**

- Cynhelir yr holl bleidleisiau cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 6 Tachwedd 2019 –**

- Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 20 Tachwedd 2019 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Amserlen ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ystyried ei egwyddorion cyffredinol, ac ysgrifennu at y pwyllgor i ymgynghori ar yr amserlen arfaethedig.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais i'r Pwyllgor gwrdd y tu allan i'r amser a nodir ar yr amserlen yn ystod wythnos 21 Hydref.

## 6 Y Cyfarfod Llawn

### 6.1 Pleidleisio drwy ddirprwy

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y papur a chytunwyd i drafod â'u grwpiau a dychwelyd ato yn eu cyfarfod ar 12 Tachwedd.

### 6.2 Papur i'w nodi - Llythyr gan Gadeirydd y Bwrdd Taliadau

Nododd y Rheolwyr Busnes y llythyr.

## 7 Unrhyw fater arall

Roedd Reg Kilpatrick (Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol) yn bresennol yn y cyfarfod i roi diweddariad byr i'r Rheolwyr Busnes ar y gofynion tebygol ar Weinidogion fel rhan o weithgaredd Ymateb Parodrwydd Brexit arfaethedig Llywodraeth Cymru pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb ar 31 Hydref.  Roedd hyn yn cynnwys yr angen posibl am hyblygrwydd o ran eu hargaeledd i graffu yn y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau.